23

Hydref

Cyfarfod






Bert Denning Day Centre

Gad i ni siarad am…

| | | |
|---|---|---|
|  | **Iechyd** - Mae angen mwy o apwyntiadau gyda Meddygon Teulu, mae angen i Wiriadau Iechyd Blynyddol fod yn fwy trylwyr a dylai llythyrau fod yn hawdd eu darllen. Dyma un o brif flaenoriaethau Grwp Cynghori Gweinidogion as Anabledd Dysgu (LDMAG) yn symud ymlaen. | ***Allwch chi gael apwyntiad gyda Meddyg Teulu?***<br><br>***Ydych chi'n cael llythyrau hawdd eu darllen i'ch gwahodd i wiriad iechyd blynyddol?*** |

| | | |
|---|---|---|
|   | **Budd-daliadau** - Mae llawer o aelodau'n cael trafferth gyda'r newid o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) i Gredyd Cynhwysol ac mae aelodau eisiau darganfod beth sy'n digwydd gyda'r ymgynghoriad ar fudd-daliadau yn gynharach yn y flwyddyn. | ***Beth yw'r problemau gyda'r newid drosodd?***<br><br>***Pa bryderon sydd gennych chi?***<br>***Pa gymorth sydd ei angen arnoch?*** |
|  | **Cymorth pan fyddwch yn symud** - Mae rhai pobl yn gorfod aros misoedd i'w cymorth gael ei drosglwyddo pan fyddant yn symud sir, neu wlad. | ***Ydych chi wedi symud Sir neu Wlad?***<br><br>***Pa gymorth gawsoch chi i wneud hyn?*** |
|   | **Taliadau Uniongyrchol** - Gwelodd cynrychiolwyr yr ymgynghoriad cyfredol. Cododd Lucy y mater o anghysondeb ynghylch pwy sy'n cael Taliadau Uniongyrchol a phwy sy'n gorfod cyfrannu tuag at eu gofal. | ***Ydych chi'n cael Taliad Uniongyrchol?***<br><br>***Oedd hi'n hawdd cael Taliad Uniongyrchol?***<br><br>***Ydych chi'n gorfod cyfrannu tuag at eich Taliad Uniongyrchol?*** |

| | | |
|---|---|---|
|  | **Cymorth i bobl sy'n byw gyda'u teulu** - Nid yw llawer o bobl sy'n byw gyda'u teulu yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Disgwylir i'w teuluoedd roi cymorth. Nid oes cynllunio i'r dyfodol ychwaith. | **Rhannwch enghreifftiau o'r cymorth mae teuluoedd yn ei gael i'ch helpu i aros yn byw gartref** |

Edrychwn ymlaen at eich gweld bryd hynny.